**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 24 Gorffennaf 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | Y V Jardine | A J Jeffery |
| H Lawson | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Mark Gosney | Arweinydd Tîm Comisiynu |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |
| Y Cynghorydd Alyson Pugh | Aelod y Cabinet dros Les |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A J O'Connor a/ac J E Pritchard

---

**9 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-2024.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd L V Walton yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**10 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 11 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 12 Adnewyddu Strategaeth Trechu Tlodi Cyngor Abertawe. (Er Gwybodaeth - Lee Cambule/Anthony Richards)

Cyflwynodd Lee Cambule, Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi, adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi ar y cynlluniau i ddiwygio'r Strategaeth Trechu Tlodi a rhoi adborth ar themâu cychwynnol.

Dylid e-bostio unrhyw gyfraniadau at y broses gydgynhyrchu ac ymgysylltu er mwyn llywio drafft cychwynnol y strategaeth cyn ei chyfnod ymgynghori ffurfiol yn tacklingpoverty@abertawe.gov.uk.

## 13 Proses a Meini Prawf Grant Codi'r Gwastad. (Cyflwyniad - Jane Whitmore/Mark Gosney)

Rhoddodd Jane Whitmore a Mark Gosney gyflwyniad ar broses a meini prawf y grant Ffyniant Bro.

Amlinellodd y swyddogion gefndir, diben, meysydd blaenoriaeth, meini prawf, enghreifftiau, 4 opsiwn posib, effaith, amserlen arfaethedig a risgiau/rhyngddibyniaethau'r broses.

Gofynnwyd i'r pwyllgor am eu barn ynghylch pa feysydd i'w targedu a gofynnwyd iddynt nodi'r meini prawf ar gyfer ceisiadau.

Darparodd y pwyllgor rai safbwyntiau cychwynnol o ran yr opsiynau sydd ar gael, fodd bynnag roeddent yn teimlo gan fod hwn yn benderfyniad pwysig, y dylid rhoi mwy o amser i aelodau ystyried yr opsiynau ymhellach ac awgrymwyd y dylid trefnu gweithdy ar gyfer mis Awst/Medi.

**Penderfynwyd:**

1) Bydd y swyddogion yn darparu rhagor o wybodaeth am ganlyniadau clir ar sail estyn yr amserlenni hyd at y flwyddyn ariannol nesaf;
2) Cynnal gweithdy ym mis Awst/mis Medi.

## 14 Cynllun Gwaith 2023-2024 Drafft.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith drafft ar gyfer 2023-2024.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwaith Drafft ar gyfer 2023-2024.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.06 pm

**Cadeirydd**